Oil Boilers and Cookers  
Ground & Air Source Heat Pumps  
Solar Thermal Panels  
Unvented Cylinders  
01267 290977 - 07966592183

## Harcourt Tree and Garden Services

Tree Surgery, Felling and Removal

25 years experience

Garden work, All types of Fencing

### And Gwili Firewood

Seasoned hardwood or softwood logs

Ian Harcourt 01267253368 or 07812158825

## Gwalia Stores

Peniel Road 01267 890345

**Fuel, Shop, Post-office**

**Licensed,**

**Hot & cold food to go**

**Coffee,**

**Newspapers and magazines**

## Pure Shine

### Pure water window cleaning

Based in Bronwydd, serving Bronwydd,  
Llanpumsaint and the surrounding villages.

Window Cleaning, Conservatory Cleaning, External  
Gutters, Fascia and Soffit Cleaning

Contact Steve for a FREE no obligation quote:

Tel: 07462138885 / 01267 253956

Email: [pureshinewindowcleaning@gmail.com](mailto:pureshinewindowcleaning@gmail.com)

Facebook: Pure Shine

## THE OLD DAIRY DOG HOTEL

Seven Brand new luxury kennels  
Spacious individual kennels with their own covered patio  
area

Underfloor heating for our guests' comfort

18 acres of private grounds to exercise

Fully licensed,

30 years' experience caring for clients' dogs

To view our kennels phone 01267 281628

or 07717 345277

or email [www.theolddairydoghotel.co.uk](http://www.theolddairydoghotel.co.uk)

## Gwyrdd Enterprises

Property Maintenance - Household Repairs

Patio Cleaning - Drain unblocking

Carpet, Rug and Upholstery Cleaning

Car Battery Diagnosis, Jumpstarting &  
Replacement.

TV and computer Set Up

**If you can't see what you need just ask**

**Contact Jon\_07943 948173**

**Based in Llanpumsaint**

[Gwyrddenterprises@gmail.com](mailto:Gwyrddenterprises@gmail.com)



**Hafan Holistaidd**

Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology

Tyluno / Aromatherapy Massage

Indian Head Massage

Thermal-auricular (Ear candling)

Reiki

### Meleri Brown MAR

[mels.brown@hotmail.co.uk](mailto:mels.brown@hotmail.co.uk) 07855488660

**Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist**

Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,

SA33 6LT



## Tom Eldred

Saer Coed - Carpentry

All aspects of carpentry undertaken including  
roofing, timber frames, stud work, decking, tiling,  
flooring and kitchens.

**Tel - 07854 167670**

Pantyyffordd, Llanpumsaint, SA33 6BU



A Holistic Therapy Service offering a bespoke  
Treatment based on Healing and providing Relief

**Victoria Peace 07967946873**

[www.peace-massage-therapy.co.uk](http://www.peace-massage-therapy.co.uk)

## Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau

MOT, servicing, tyres, repairs

Tel: (01267) 253599

*JRB & K Thomas*

*Peniel Road Carms SA32 7DR*



# Llais y Llan Chwefror 2023

**Copy date 26 Mawrth 2023**

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan




Drudwys yn mwynhau'r machlud ar Bier Aberystwyth  
(Clare Bishop)



Machlud haul yn Llanpumsaint  
(Carolyn Smethurst)

Machlud arall yn Llanpumsaint  
(Clare Bishop)





# I'ch Dyddiadur

## Digwyddiadau Unigol

- Dydd Iau Chwefror 9fed, 16eg a 23ain Celf yn y Cwtsh Neuadd Goffa 10yb hyd hanner dydd.
- Nos Fercher Chwefror 15fed - Cwis a Chyri yn y Railwe 8 o'r gloch
- Nos Wener Mawrth 10fed Sioe Prosecco a Phwdin 8 o'r gloch yn y Neuadd
- Sadwrn Mawrth 25ain Helfa Drysor Cannir Neuadd o 2 hyd 4 o'r gloch.
- Nos Wener Mawrth 31ain Syllu ar y Sêr 5 tan 11yh Neuadd a'r Maes Chwarae

## Digwyddiadau Addoli arferol

- **Eglwys Llanpumsaint** - Boreol Weddi am 9yb bob Dydd Mercher ac am 9.00 yb bob Sul.
  - **Chwarae gyda Duw** – 4 hyd 5 bob prynhawn Dydd Mawrth.
  - **Cylch DOT** - I ieuencid dros 10 oed yn Eglwys Llanpumsaint fel arfer bob Nos Iau o 5.30 tan 7.30.  
Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Parch Gaynor ar 01267 253158 neu [gaynorjones-higgs@cinw.co.uk](mailto:gaynorjones-higgs@cinw.co.uk)
- **Capel Caersalem** Cysylltydd Gwasanaethau Eleri Morris (Ysgrifenyddes) 01267 253895
- **Capel Ffynnonhenri** Cysylltydd Gwasanaethau Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 – Gwyn Nickolas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** Cysylltydd Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

## Digwyddiadau Wythnosol yn y flwyddyn newydd

- **Bowlio Dan-do** yn y Neuadd Goffa – bob Nos Lun a Nos Iau – 7.30 - 9.30
- **Caffi Bach** yr Eglwys bob Dydd Mawrth o 11.30 - 2.30
- **Dawnsio Salsa** yn y Neuadd Goffa ar Nos Fawrth o 7 – 8.30
- **Zumba** yn y Neuadd Goffa ar Nos Fercher o 7 - 8
- **Safle Cynnes** y Neuadd Goffa Bore Iau – o 10 – 2

## Gwasanaethau plwyfol wythnosol

- Llun Hanner dydd hyd 2o'r gloch Y **Fet Symudol** Neuadd Goffa
- Mawrth Fan y **Swyddfa Bost** – Ger y tafarn (**amser?**)
- Mercher:
  - 10.45yb hyd 11.45 **Llyfrgell Symudol** Neuadd + Ger y tafarn
  - Pobydd **Bara** i'r tŷ (07971 740505)
  - Fan **Pysgod** i'r tŷ (07779 987305)
- Iau **Ffrwythau a Llysiau** i'r tŷ (07969 047045)
- Gwener 1-3 Fan y Swyddfa Bost ger y Tafarn

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint (Y Cae Chwarae)



Blwyddyn Newydd Dda i bawb sy'n defnyddio'r Maes Chwarae. Ar Nos Wyl Nadolig dychwelodd Gorymdaith Siôn Corn yn frwdfrydig am y tro cynta' ers y clefyd Corfws. Braff fu hi weld cymaint o hen wynebau a rhai newydd hefyd, wrth deithio o amgylch y pentref ac wedyn yn y Neuadd am y gwin cynnes a'r mins peis.

Daw cyfnod y Clwb Cant yn ôl yn Fis Mawrth felly byddwn yn cyn hir yn casglu arian oddi wrth bawb sydd am gystadlu yn y flwyddyn newydd. Fel arfer bydd ymaelodi am y flwyddyn ddim mwy nag £12. Yn dilyn ein hymgyrch codi arian yn ystod y flwyddyn aeth heibio pleser fu trosglwyddo £500 i'n Helusen ddewisol sef Sefydliad DPJ. Cyn hir byddwn yn cyhoeddi ein helusen ddewisol am y

flwyddyn nesaf. Trefnir Helfa Drysor ar Sadwrn 25ain o Fawrth, i gychwyn o Neuadd Llanpumsaint rhwng 2 a 4 o'r gloch. Taith o ryw ddwy awr fydd hi, gyda'r cyfle o brynu'r ddiod a'r lluniaeth ar derfyn y daith, lle tynnir y raffl.

Mae ein cyfnod o adnewyddu'r Maes Chwarae, aranwyd gan Gronfa Les Coedwig Brechfa yn dirwyn i ben, gyda phedair bord bicnic ger i le chwarae, gydag un ohonynt yn addas i gadair anabl. Gobeithiwn am dywydd pleserus tua'r Gwanwyn er mwyn i bawb elwa o'r gwelliannau. Fel arfer mae'r Pwyllgor yn cadw llygad am wirfoddolwyr i gyfrannu at gynnal a chadw'r Cae Chwarae a chodi arian. Os allwch gynnig help llaw yna cysylltwch â ni ar wefan [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) neu siaradwch ag Aaron Jones ar **07814157946** neu aelod arall o'r Pwyllgor am fwy o wybodaeth.

## Eglwysi Llanpumsaint, Celynin Bronwydd a Llanllawddog



Bydd dydd Gwener 24ain o Chwefror yn nodi blwyddyn ers cychwyn rhyfel Iwcrea. Bydd Eglwys Llanpumsaint yn agored am Weddi a Myfyrdod o hanner dydd ymlaen bryd hynny. Bydd lleoliadau unigol Gweddi a Myfyrdod wedi eu paratoi. Yn agored i bawb beth bynnag eu ffydd.

Nos Wener Mawrth 31ain – Band Ukeleli

Caerfyrddin – Tafarn Nantcelynen Bronwydd – Yr elw at Eglwys Sant Celynin.  
Sadwrn Ebrill 1af – Ffair Wanwyn Eglwys Llanllawddog 10yb tan hanner dydd.

## Hosbis Skanda Vale

Mae Hosbis Skanda Vale yn Saron, ger Llandysul, yn paratoi i ail-agor ei gwasanaeth seibiant misol ym mis Chwefror.

Mae'r Hosbis yn brysur iawn ar hyn o bryd wrth i'r staff a'r gwirfoddolwyr baratoi i groesawu cleifion mewnol am un wythnos y mis.

Bydd yr Hosbis yn croesawu hyd at chwe unigolyn sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau i'n cyfleusterau tra addas, gan gynnig seibiant y mae gwir angen arnynt i deulu, ffrindiau ac anwyliaid – y cyfan yn rhad ac am ddim.

Mae Hosbis Skanda Vale yn unigryw gan fod y mwyafrif helaeth o'r tîm – nyrsys, gofalwyr, staff cegin, glanhawyr, gweithwyr swyddfa a garddwyr – i gyd yn wirfoddolwyr, yn cynnig eu hamser, eu hegri a'u harbenigedd am ddim i helpu'r rhai sydd angen cymorth.

Cyn yr ail-agor, mae'r Hosbis wedi lansio ymgyrch "1 noson y mis" yn y gobaith o annog Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd a gofalwyr i roi un noson y mis o'u hamser i ofalu am gleifion – gyda chefnogaeth y Nyrs Gofrestredig ar y safle.

Os hoffech chi wirfoddoli mewn unrhyw un o'r cyfleoedd niferus sydd ar gael – neu'n adnabod rhywun a allai elwa o'r gofal a'r cymorth a gynigir gan yr Hosbis – cysylltwch â ni drwy ffonio 01559 371222, e-bostio [hello@skandavalehospice.org](mailto:hello@skandavalehospice.org) neu drwy ymweld â gwefan [skandavalehospicehospice.org](http://skandavalehospicehospice.org)



## Clwb Bowlio Dan- Do Llanpumsaint a Nebo



Rhys and Catrin

Bellach rydym yn ail ran y gystadleuaeth yn awr fe'm gwelwyd yn chwarae dwywaith yn erbyn ein cymdogion cystadleuol Bronwydd o fwn pythefnos. Wedi dwy noson o chwarae egniol ond pleserus Bronwydd aeth a hi lawr na ond ni ddaeth i'r brig adre'. Edrychwn ymlaen yn awr at gystadleuaeth cofiant Roy Bowen cyn diwedd y tymor. Bu chwech o'n haelodau yn cystadlu'r Parau Cardiau Coch y Sir ddiwedd Ionawr. Ian a Ioan fu wrthi i gychwyn gan chwarae'n dda iawn, ond aeth Dafydd a Jill ymhell i'r chwarteri. Dyma'r tro cyntaf 'i Rhys a Catrin gyd-chwarae gan lwyddo i ddod yn ail am y Darian. Da iawn chi'r tri par am ennill clod i'r Clwb.

Cofiwch fynd i'n gwefan [Llanpumsaintmbc.Org.uk](http://Llanpumsaintmbc.Org.uk) am y wybodaeth ddiweddaraf. . Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474

## Dewinwyr Gorllewin Cymru

Cyfarfodydd i gwrdd am 1.45yp i ddechrau am 2 o'r gloch yn Neuadd Bronwydd Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy? Fel arfer mae gennym amser i siarad ar ddiwedd cyfarfod neu'n well fyth dewch gyda ni ar un o'n teithiau.

- Chwefror 26ain - Ross Briagha - Adeiladu Dolmen (math o feddrod symudol gyda'r ddwy garreg syth yn cynnal carreg wastad uwchben). Maent yn dyddio o'r Oes Neolithig gynnar gyda haen o gerrig a phridd uwchben yn ffurfio crug.
- Mawrth 26ain - Cyfarfod Cyffredinol blynyddol.
- Ebrill 23ain - Yr awdur a'r siaradwr Ian Pegler - Greal Nanteos - Esblygiad Greal Sanctaidd. Mae Ian yn aelod o ddewiswyr Gorllewin Cymru ac yn gyd-awdur o'r gyfrol ddiddorol hon. Gwnaeth lladrad Cwpan Nanteos o dy byw yng Nghymru yn 2015 ac yna ei achub dwy flynedd wedyn daro newyddion y dydd a chael sylw BBC Crimewatch hefyd. Felly gwelwyd nifer yn holi am hanes y cwpan - hyn sydd wedi ein hudo am dros dri chan mlynedd gynted daeth hynt y llestr dirgel yma'n destun trafod. Erbyn hyn mae'n weladwy gyhoeddus i'r cyhoedd am y tro cynta' ers y bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Gallwch ddarllen mwy ar ac yn [https://www.amazon.co.uk/Nanteos-Grail-Evolution\\_Holy-Relic/dp/1398106224](https://www.amazon.co.uk/Nanteos-Grail-Evolution_Holy-Relic/dp/1398106224)

£12 am ymaelodi am flwyddyn ond £5 y cyfarfod wedi hynny, ac fe fydd yna gwpaned a bisgedi i'r fargen. £6 y tro os nad ydych yn aelod a hynny am ddau gyfarfod. 'Does dim angen cyfarpar jyst trowch Ian. Efallai bydd gwisgo mwgwd a chadw pellter yn ofynnol o hyd os nad oes cyflwr meddygol yn eich eithrio. Gwylwch ein gwefan - <<http://westwalesdowers.org.uk>> neu ffoniwch Sandy 01267 253547

## Clwb Gwili Chwedeg

Braf fu gweld cymaint o aelodau a darpar aelodau yn ein Cyfarfod Cyffredinol yn Ionawr. Yn dilyn eu cynnig i ddal ati ail-etholwyd aelodau'r Pwyllgor yn unfrydol. Dosbarthwyd y cardiau Aelodaeth ac 'roedd yn gyffroes sylwi pa mor brysur fydd y flwyddyn o'n blaen, ac yn arbennig y bwriad i ddychwelid at y daith Twrci a Thinsel. Byw mewn gobaith!

- Chwefror 27ain - Dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda Ukeleles Caerfyrddin - bu'n hynod o boblogaidd y llynedd. Bydd Cawl a digon o ganu i ddathlu ein Gŵyl Dewi.
- Llun Mawrth 27ain - Val Newton - testun i'w gadarnhau.
- Llun Ebrill 24ain - Bruce Wallace - Hanes Pentref Nodweddiadol Cymreig.

Ceir mwy o wybodaeth oddi wrth yr Ysgrifenyddes Val Giles 01267 281194 – Croeso i aelodau **Newydd am £10 y flwyddyn.**

## Hwb cymdeithasol cynnes yn neuadd y pentref



Mae'r hwb cymdeithasol cynnes yn y Neuadd wedi bod ar agor ar dydd Iau am dros dau fis nawr. Gwneir cysylltiadau newydd ac adnewyddiwyd cysylltiadau gyda hen gyfeillion dros fowlen o gawl, gemau o tenis bwrdd a dominos.



Ym mis Chwefror, bydd yr hwb cynnes yn cysylltu gyda artistiaid Arts Care Gofal Celf, sydd yn cael ei gefnogi gan Gronfa Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa, Straeon o'r Goedwig.

Sesiynau celf rhad ac am ddim gan bobl greadigol as artistiaid lleol.

Dydd Iau 10 yb-12yb. Darperir yr holl ddeunyddiau – am ddim!

- 16 Chwefror Dyfrlliw I Ddechreuwy
- 23 Chwefror Gwehyddu Helyg a Chrefftau

**Mae Pwyllgor y Neuadd yn chwilio am Ymddiriedolwyr newydd i ymuno a'r Pwyllgor. Os am wybod mwy cysylltwch â Pamela Jones, Cadeirydd 0781519073 ne Clare Bishop Ysgrifennydd 07940065630**

# Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

*Prosecco a Phwlin*  
sioe ffasiwn fashion show

**£10**  
*tocyn/ticket*

**10fed Mawrth 7yh** **10th March 7pm**

**Neuadd Llanpumsaint Hall SA33 6BZ**

am docynnau / for tickets : Pamela 07815119073  
Holl elw tuag at CRhA Ysgol Llanpumsaint a Neuadd Goffa Llanpumsaint  
All proceeds to Llanpumsaint school PTA & Llanpumsaint Memorial Hall

Ar nos Wener, 10 Mawrth bydd y Gymdeithas, ar y cyd gyda Phwyllgor Neuadd Llanpumsaint, yn cynnal sioe ffasiwn Prosecco a Phwlin. Bydd cwmnïau Calon Mam, Llawn Cariad, tRHInket a Golwg yn arddangos eu heitemau a nwyddau. Tocynau yn mynd yn gyflym ac ar gael trwy Pamela ar 07815119073.

Bydd y Gymdeithas hefyd yn gwerthu tocynnau i ennill hamperi Pasg, cadwch lygad ar dudalen Facebook Ysgol Llanpumsaint am sut i brynu tocynnau.

Diolch yn fawr iawn i gwmni Calon Mam am noddï bagiau anrhegion i'r disgyblion ysgol yn ystod ymweliad pwysig gan Sion Corn cyn Nadolig. A diolch yn fawr iawn i'r Saer Coed Tom Eldred am roi rhodd o ddeunyddiau ar gyfer set cyngerdd Nadolig yr ysgol.

Mae'r holl arian a gesglir gan y Gymdeithas yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch yr ysgol felly rydym yn ddiolchgar iawn am unrhyw gefnogaeth posib. Cadwch lygad allan am ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn  
Gwynethh Ayers



# Curad Calon Llanpumsaint

Lleoliadau'r Peirannau Adfywio Cofiwch fynd i'n gwefan Llanpumsaint

Mae yna 4 ar gael yn ardal Llanpumsaint - gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol ble maent

- Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ
- Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU
- Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri SA33 6LD
- Tu fas Festri Capel Nebo SA33 6HN

Mae'r pedwar uched wedi eu cofnodi ar The Circuit cofrestr genedlaethol sydd yn weladwy i'r Gwasanaeth Ambiwlans os ydynt yn derbyn galwad brys. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae'r Adfywiwr agosaf atoch Cofiwch fynd i'n gwefan Llanpumsaintmbc.Org.uk am y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'n hawdd ei ddefnyddio ac nid oes angen hyfforddiant ymlaen llaw arnoch. Bydd y peiriant yn dweud wrthy ch yn gywir beth i'w wneud er mwyn creu'r sioc drydanol angenrheidiol.

Nid oes angen unrhyw god i agor yr Adfywiwr, ac mi fydd y gwasanaeth Ambiwlans yn gallu eich arwain i wneud beth sydd angen dros y ffon. Nid oes angen hyfforddiant ymlaen llaw cyn ei ddefnyddio oherwydd bydd yr AED a 999 yn eich tywys drwy'r broses. Gallwch ymweld â Lifesaver ([life-saver.org.uk](http://life-saver.org.uk)) ar unrhyw adeg. Gall y rhain fwydo eich hyder ac mae'r oll am ddim ac yn gymorth mawr.

Bob blwyddyn yng Nghymru mae dros chwe mil o bobl yn dioddef trawiad ,a hynny yn sydyn heb rybudd. Mae eich tebygrwydd o oroesi'r trawiad yn lleihau 10 y cant bob munud os na fydd yna rywun ar gael i ddefnyddio'r Adfywiwr. Mae llai na 5% yn goroesi yng Nghymru yn dilyn trawiad, o'i gymharai â 10% yn Lloegr, 9% yn yr Alban , ond mewn sawl gwlad yn Ewrop ac America mae'r ffigwr yn 25%.

Mae gwneud rhywbeth bob amser yn well na gwneud dim, gan gofio'r camau sylfaenol o ffonio 999 a mynd ati i roi CPR a chadw i ddefnyddio'r Adfywiwr nes cyrraedd yr Ambiwlans. Hwyraf gyd cyn cychwyn yr Adfywiwr gwaeth fydd y canlyniad. O hyfforddi sgiliau CPR (<https://www.nhs.uk/conditions/first-aid/cpr/>) gallwch arbed bywyd. Alle fod yn un o'r teulu, cyfaill, cymydog neu rywun yn mynd heibio. Mae arbed Bywyd Cymru yn annog pawb i ddysgu sgiliau CPR naill ar y lein nau wyneb yn wyneb, er mwyn i'ch teulu a'r gymuned yn hyderus i wybod beth i'w wneud pan geith rhywun ei daro.

*Carolyn 01267 253308*

# Sut Mae Llanpumsaint wedi elwa o Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa.

Diolch i bawb wnaeth gysylltu â mi yn dilyn y Llais y Llan ddiwethaf i ofyn am fanylion y gwariant ar y pentref a'r gymdogaeth ehangach. Mae'r holl wariant yn cael ei ddiweddarau'n gyson ar ein gwefan Grantiau, ond rwy'n hapus i dderbyn ymholiadau ynghyn a gwariant. Gellir fy llogi hefyd am awr i drafod cais newydd.

Elwodd ardal Llanpumsaint gronfa o dros £200,00 yn ystod y 4 blynedd olaf i'r mudiadau canlynol –

- Cyfnewidfa Gwybodaeth Gymunedol Llanpumsaint - , Costau cyfieithu, argraffu a digideiddio Llais y Llan a hefyd costau stamps i ddsbarthu adeg y Firws - £15,300 dros gyfnod o 5 mlynedd.
- Cyfarpar gweithredol i Ysgol Llanpumsaint drwy law'r Gymdeithas Rheini ac Athrawon - ££8,510. Mae'r Ysgol hefyd yn rhan o'r cywaith Cynefin sy'n cefnogi datblygiad y Cwricwlwm Cymreig newydd.
- Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint. Gwella'r Maes Chwarae a gosod cyfarpar newydd a chronfa arall i atgyweirio ffens yn dilyn storom - £48,143.81
- Neuadd Goffa Llanpumsaint. Gwella cyflwr yr adeilad drwy oresgyn lleithder, adnewyddi'r gwresogydd, a chostau glanhau am ddwy flynedd. Talwyd hefyd am y gwasanaeth Band Eang, golchydd llestri, byrddau Tennis Bwrdd a Pŵl, canolfan gwefr drydanol ger y Neuadd a sefydlu Cwtsh Cynnes yno - £29,879. Rydym hefyd yn cydweithio a'r Neuadd er mwyn newid eu goleuadau i LED, arbed ynni ac edrych at atgyweirio pethau eraill.
- Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint. Mynedfa i'r Anabl, adnewyddi'r twnnel poli wedi'r storom, a chefnogi'r Dydd Agored - £4,526
- Merched y Wawr Llanpumsaint. Achlysur cymunedol i ddathlu pen blwydd y mudiad - £500
- Curad Calon Llanpumsaint. Peiriant Adfywio i'r Gymuned - £2,000
- Clwb Gwili Chwedeg Bronwydd – Cefnogi'r aelodau - £875
- Mudiad Llywio Siop Llanpumsaint. Arolwg dichonoldeb a chysylltu cymunedol i asesu posibiladau o gynnal Siop Gymunedol - £5,000
- Cylch Bronwydd. Hyfforddi athrawon, gwaith atgyweirio, ffens i'r Ystafell awyr agored, costau symud i Neuadd Llanllawddog ac yna dychwelid i Fronwydd - £14,454.45
- Neuadd Eglwys Llanllawddog. Costau'r Arolwg. Gosod cyflenwad dwr a thrydan, ffenestri dwbl a storfa. Cysylltiad cymunedol i ddefnydd yr adeilad Gosod CCTV, Band Eang a phaentio ac ystordy. £62, 555.11
- Garej Windy Corner a Garej Gwalia. Cefnogi cyflenwad bwyd i'r bregus yn Llanpumsaint adeg y firws - £2,500
- Sganda Vale 2 beiriant Adfywio - £3,400

Gallwch gael gwybod am y mudiadau a gefnogwyd a hefyd ystyried eich cais eich hun drwy ymweld â'n gwefan <https://brechfawestcommunityfund.org.uk>

Neu cysylltwch â rheolwr y gronfa Moishe Merry [Brechfa@anturcymru.org.uk](mailto:Brechfa@anturcymru.org.uk) neu 01239710238



# Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Penderfynwyd ar gyllideb 2023-4 gan ystyried yr holl oblygiadau cyfreithiol ac ariannol (gan gynnwys taliadau Archwiliad Cymru) a'n cynllun gwariant am 2023-4. Da gennym gyhoeddi er yr holl chwyddiant, i ni drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn fedri gynnal ein Harchebiant 'run fath a llynedd - hynny yw £30 am y Band D. Cytunodd y Cyngorwyr ei bod yn bwysig osgoi codi mwy yn wyneb yr holl heriau ariannol sy'n wynebu ein preswylwyr yr adeg yma

Mae'r Cyngor yn dal i chwilio am Clerc dros dro - cyflog £2,210 - £2,440 y flwyddyn, yn gweithio yn bennaf o adre ar oriau hyblyg. Dyma gyfle gwych i rywun lleol yn meddu ar sgiliau gweinyddol ac yn awyddus i gyfrannu i'r gymuned leol. Byddai bod yn ddwyieithog yn ddelfrydol ond nid o reidrwydd. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gael ac am wybodaeth bellach gellir cysylltu ag Arwel Nickolas y Cadeirydd 01267 281365, neu'r clerc dros-dro Kumi Ariyasa [clerc.llanpumsaint@gmail.com](mailto:clerc.llanpumsaint@gmail.com) <<mailto:clerc.llanpumsaint@gmail.com>> neu 07799898002. Nid oes dyddiad cau ac felly ystyrir pob cais yn ôl y galw hyd a wneir apwyntiad.

Bydd y Cyngor yn cyfarfod bob yn ail fis yn y Neuadd, ac yn agored i'r cyhoedd bob tro. Cyhoeddir y munudau a'r agenda ar wefan y Cyngor.

[www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en](http://www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en) <[about:blank](#)> Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar y Mawrth 14eg yn y Neuadd Goffa - Croeso i bawb!

*Kumi Ariyadasa, Clerc dros-dro*

## Salsa yn Llanpumsaint

Tra i sŵn y salsa atsain o'r Neuadd bob Nos Fawrth adeg y pedair wythnos olaf yma, bu arbenigrwydd Meic a gosgeiddrwydd Pandora ar y llawr dawnsio yn gyfle i'r pentrefwyr ddysgu symudiadau'r ddawns. Bu'r profiad yn llawn hwyl a sbri, ac erbyn hyn gwelir trefn yn datblygu. Nid oes angen partner wrth fwynhau ymarfer. Edrychwn ymlaen yn wythnosol at y wers nesaf a dysgu camau newydd. Mae'r elw o ymgyrch codi arian Ionawr, sef £225 yn cael ei roi i Bwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint.

*Cathy a Huw Williams*




Croeso i'r dibrofiad ac unrhyw un sy'n troi fewn. Y dosbarth Am Ddim i'r rhai newydd. Byddwn yn ail wneud yn wythnosol amseri'r salsa a'r holl symudiadau. Mae yna them i wersi pob mis i'ch gwneud i deimlo'n gyffyrddus cyn symud ymlaen i'r nesaf. Fel hyn bydd yn haws camu'n 'nol pe baech wedi colli wythnos neu ddwy. Ceir mwy gwybodaeth wrth Mike ar 07497 362846

## Zumba yn Llanpumsaint

Os ydych yn tueddi fwy at y Zumba cynhelir y rhain ar Nos Fercher o 7 tan 8o'r gloch. Erbyn hyn wrth deimlo ffrwd o egni ein bwriad yw cynnal Her Zumbathon ar yr 22ain o Chwefror o 6 tan 8o'r gloch. Bydd yr elw a godir yn mynd i'r Elusen Mind.



## Clwb Garddio Bronwydd a'r Cylch



Llyngarreg gardens

Rydym yn Glwb Garddio prysur sydd wedi bod wrthi am ddeugain mlynedd lewyrchus. Ein bwriad yw dod a garddwyr at ei gilydd ac yn croesawu pawb o Fronwydd neu'r cyfagos, a hefyd ymhellach yn Sir Gar. Yn croesawu Bydd ein cyfarfodydd bob tro yn cynnwys siaradwr a'r bynciau'n ymwneud a garddio, ac rydym yn rheolaidd yn ymweld â Gerddi. Mae ein Sioe Arddwriaeth Flynyddol yn denu cefnogaeth amlwg.

F'em cefnogwyd yn y gorffennol gan y Loteri Genedlaethol ac yna wedyn gan Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa.

Cynhelir ein cyfarfodydd ar y drydedd Nos Fawrth bob mis yn Neuadd Bronwydd i gychwyn am 7.30 o'r gloch.

- Chwefror 21ain - Paul O'Neill o Llwyngarreg ar ddatblygiad ei Ardd, gydag ymweliad i ddilyn yn y Gwanwyn.
- Mawrth 21ain – Laura Jones o'r Gerddi Botaneg i siarad am Peillio.

Cysylltwch â Sue Hart (Cadeirydd) ar 01267 237777 neu Maureen Ifans (Trysorydd) 01267 236280 neu Jane Prescott (Aelodaeth a Rhaglen) 01267 230463. £10 y flwyddyn yw'r Aelodaeth gyda thal o £2 os am fynychu un cyfarfod yn unig.

## Rhagor am yr Enwau Lleodedd

Beth amser yn ôl cyfrannais bedwar darn ar enwau lleol ein hardal i'r Llais. Buont yn dderbyniol iawn i nifer o'r Di-Gymraeg sydd bellach wedi symud yma, a hefyd o ddiddordeb i'r Cymry hynny fuont yn gyfarwydd iawn ac enwau nad oeddent cynt wedi ystyried eu hystyr a'u tarddiad. Ail gyhoeddwyd yr erthyglau eto'n ddwyieithog yn fy llyfr Cofio a Mwy, gan danlinelli'r pwysigrwydd o gadw'r hen enwau a pheidio â'u fyth newid. Bellach hoffwn dynnu sylw at gyhoeddiad pwysig arall ymddangosodd yn ddiweddar, sef *The Placenames of Carmarthenshire* gan Richard Morgan o law'r Welsh Academic Press Caerdydd.

Yn gyn-Archifydd i Bowys a Morgannwg mae'r awdur yn arbenigwr ac yn hen gyfarwydd â'i faes. Tra yr oeddwn i yn fy ymchwil wedi canolbwyntio ar enwau tai a ffermydd yn ein hardal yma, mae Morgan wedi ymchwilio pob tref, a phentref yn Shir Gâr. Fel y tybiwch daw tua naw deg y cant ohonynt o wreiddiau Celtaidd a Brythoneg, ac mae wedi dilyn y gweddill. Cefndir Rhufeinig sydd i Maredunum (Caerfyrddin), mae Cnwc yn datgelu i'r Gwyddelod fod yma unwaith, ac mae yna leiafrif Seisnig sef Tumble a Cross Hands. Hawdd i'r Cymro adnabod arwyddocâd Glyn, Cwm, Bryn, Esgair, Rhyd ac Aber, gan wybod eu bod yn datgelu llawer am y dirwedd. Mae'r cannoedd o Llan yng Nghymru, a nifer ohonynt gydag enw Sant yn dilyn i ddatgelu sefydlu'r eglwysi cynnar. Ganrifoedd wedyn pan ddaeth Anghydfurfiaeth i'r bri gwnaeth nifer o bentrefi, megis Nebo, Hermon a Pheniel, dderbyn enw'r capel i'w hardal. Lle bynnag ydych am chwilio cewch yr ateb yma yn y gyfrol fanwl gynhwysfawr hon. Hawdd dod o hyd i bobman oherwydd mae'r holl enwau yn nhrefn y wyddor, gydag eglurhad am ei gefndir ac ystyr. Mae'r awdur hefyd wedi nodi'r gwahanol sillafu fu ar enwau'r pentrefi. Bydd hyn yn destun difyrrwch i ni'r Cymry Cymraeg wrth weld ymgais llawer i un estron wrth geisio Seisnigo yn hyn glywodd ei glust. Ychwanegaf rhai o'r rhai lleol yma isod -

- *1535 Llanypynsaynt - 1547 Llampemsaunt - 1608 Llanipimsaint - 1765 Llan y Pimp Sant - 1782 Llanpumsaint - 1831 Llanpumpsaint.*
- Ystum Gwili – Yr hen enw am ardal Nebo
- *1548 Istym Gwylly - 1811 Ystym Gwili.*
- Ffynnonhenri –
- *1752 Funnon Henry - 1795 Funnon Hendry - 1831 Ffynnon Hendry*
- Pencader - Bryncin ar siâp cadair
- *1191c Pencadeir - 1595 Penkadeir - 1637 Pencadeyre*

Mae yna lu o enghreifftiau eraill. Dyma lyfr i'w gadw wrth law a phori ynddo nawr ac yn y man fel bo'r galw, neu bob tro mae rhywle angen eglurhad

*Arwyn 2022*

## Adar Llanpumsaint y 2023

Cymerwyd rhannyn yr arolwg gan 17 lleoliad. Rhifwyd 850 o adar o 31 gwahanol fath (2 yn fwy na 2022) wedi glanio yn ein gerddi heb gynnwys y barcud coch na'r boda fu'n hedfan uwchben. Y math newydd oedd y dringwr bach a phâr o wylanod. Y cyfartaledd o ymwelwyr i'r gerddi oedd 12 gwahanol fath (er i un neu ddau leoliad dderbyn ugain) a rhwng 30 i 50 aderyn yn ymweld.

Mae'r deg math uchaf o adar yma'n weddol debyg i ganlyniadau'r RSPB am Gymru yn 2021; Aderyn y To, drudwen, titw Tomos las, Ji-binc, aderyn du, robin goch, nico a'r titw mawr. Buom yn wahanol yma mewn rhai canlyniadau o'r deg ucha'; mae'n rhestr ni yn cynnwys, Jac y do a brain lle mae un Gymru yn nodi piod a sguthanod.

Ymysg ein hymchwil mae yna dri ar Restr Goch Cadwraeth (drudwen, llinos werdd a gwylan y penwaig; a 6 ar y Rhestr Melyngoch(Ji-binc, titw penddu, lwyd y gwrych, Siglen lwyd, Aderyn y to a'r Bioden). Mae yna adar eraill yn y pentref sy'n achosi pryder cadwriaethol (Gwennol ddu, Gwennol y bondo, Dryw eurben, a'r Ehedydd).

Bydd y Cwtsh Cynnes yn y Neuadd yn cynnal achlysur gwau helygen a chreu safle bwydo adar ar ddydd Iau 23ain o Chwefror o 10yb hyd ganol dydd - croeso i bawb. Dyma'r adeg o'r flwyddyn i feddwl am osod blychau nythu allan. <https://www.rspb.org.uk/fun-and-learning/for-families/family-wild-challenge/activities/build0a-birdbox/>

Tebyg iawn eich bod yn dyfalu i ble mae'r drudwens yn mynd wrth iddynt hedfan i mewn i'r machlud bob nos tua 4.30 o'r gloch. Eu gwelyau dros nos yw'r goedwig conwydden rhyw 4 milltir i'r gorllewin o Lanpumsaint ger yr heol B4333 i'r de o Gastell Newydd Emlyn tua Thŷ Coch ar yr A484(cyfeiriad grid dwyrain 2333204 gogledd 234259).Mae'n werth gweld y miloedd ohonynt yn hedfan i bob cyfeiriad, gydag ambell i gudyll glas yn chwilio am i swper. Y nythfa enwocaf iddynt yw'r Pier yn Aberystwyth.

*Clare Bishop*



Barcud coch, Alltgaredig  
(Clare Bishop)